# Gweithlu sydd â chymwysterau, gwybodaeth a sgiliau addas

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 Ionawr 2024

Diweddariad olaf: 18 Ionawr 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/gweithlu-gofal-cymdeithasol-ar-blynyddoedd-cynnar-sydd-â-chymwysterau-gwybodaeth-a-sgiliau-addas-gydar-gwerthoedd-yr-ymddygiad-ar-ymarfer-cywir am y fersiwn diweddaraf.

**Gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar sydd â chymwysterau, gwybodaeth a sgiliau addas, gyda'r gwerthoedd, yr ymddygiad a'r ymarfer cywir.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Rydyn ni wedi cefnogi pobl sy'n cael eu cyflogi ym maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar i ddatblygu eu sgiliau a gwella'u gallu er mwyn helpu pobl yn effeithiol a darparu gofal.

Rydyn ni wedi gwrando ar y sector ac wedi gweithio gyda phartneriaid i wneud newidiadau i rai cymwysterau.

## Canfyddiad y cyhoedd o sgiliau'r gweithlu

Ym mis Mawrth 2023, datgelodd arolwg Omnibus y cyhoedd yng Nghymru bod:

- **67 y cant** o'r cyhoedd yn cytuno bod y gweithlu (gweithwyr gofal preswyl, gweithwyr gofal cartref a gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant) bob amser yn fedrus ac yn broffesiynol wrth eu gwaith
- **67 y cant** yn credu y dylai pobl dderbyn gofal yn Gymraeg, os mai dyna fyddai'n well ganddyn nhw.

Mae ein data'n awgrymu bod tua **29 y cant** o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn deall Cymraeg i ryw raddau ac rydyn ni'n parhau i edrych ar ffyrdd o helpu'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

## Buddsoddi yn y gweithlu

Talwyd **£7,144,856** i awdurdodau lleol drwy'r **Grant Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol,** gydag arian cyfatebol o **£3,062,081** gan awdurdodau lleol, i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol.

## Newidiadau i gymwysterau

Cyflwynwyd newidiadau i **gymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chymwysterau Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant** ar ôl adborth.

Cyflwynwyd newidiadau i'r asesiadau ac ychwanegu mwy o unedau.

## Diogelu

Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethon nihelpu i lansio **safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu cenedlaethol cyntaf Cymru**.

Mae'r safonau'n nodi'r sgiliau, agweddau, gwybodaeth a gwerthoedd sydd eu hangen ar bobl sy'n gweithio gydag oedolion a phlant sy’n agored i niwed.

## Cofrestr sy’n seiliedig ar gymwysterau

Fe wnaethon ni gyhoeddi ein **dadansoddiad o gymwysterau'r gweithlu cofrestredig** cofrestredig sy'n darparu gofal a chymorth. Mae cofrestr sy’n seiliedig ar gymwysterau yn hanfodol i sicrhau bod gan weithwyr cofrestredig sgiliau a gwybodaeth addas.